# Rhagair

## *Peredur Lynch*

Yn ystod mis Medi 2014, a hynny mewn cydweithrediad â'r Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd, estynnodd Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Bangor, groeso i 7fed Colociwm Societas Celto-Slavica. Hwn oedd y tro cyntaf i Societas Celto-Slavica ymweld â Chymru, ac i'r rhai a oedd yn bresennol bydd y colociwm ym Mangor yn aros yn hir yn y cof. Dros gyfnod o dridiau traddodwyd dau ar hugain o bapurau academaidd gan ysgolheigion profiadol ynghyd â myfyrwyr ymchwil. Cawsom y fraint, yn ogystal, o wrando ar dair prif ddarlith gan yr Athrawon John Koch, Angharad Price a Huw Pryce. Yn ychwanegol at fwrlwm y trafodaethau academaidd, cafodd yr holl ymwelwyr â Bangor brofiad bendithiol o'r tywydd achlysurol heulog hwnnw ym Medi a elwir gennym yn Gymraeg yn 'ha bach Mihangel'. Roedd yr 'ha bach' hwnnw ar ei ddidocaf ar Sul olaf y colociwm pan aethom i ymweld â llecynnau o bwys hanesyddol a diwylliannol ym Môn ac Arfon.

Yn ystod y bore, ar safle hen lys Rhosyr, gwenai'r haul arnom wrth inni ddatgan rhai o awdlau Beirdd y Tywysogion o fewn olion ei furiau, a hynny ar ôl bwlch o bron i saith canrif a hanner. Wrth i'n taith ddod i ben yn Ninas Dinlle roedd llwybrau'r môr yn pefrio o'n blaenau a rhyw hud Mabinogaidd ar Wynedd.

Wrth fynd ati i drefnu'r Colociwm ym Mangor ar ran Ysgol y Gymraeg a'r Ganolfan Uwchefrydiau, cefais gefnogaeth barod gan Gyfarwyddwr y Ganolfan, Yr Athro Dafydd Johnston. Bu dau o swyddogion sefydlog Societas Celto-Slavica, Dr Maxim Fomin a Dr Elena Parina, yn dra pharod â'u cydweithrediad. Yma ym Mangor, gyda'i haelfrydigrwydd arferol, ysgwyddodd Dr Aled Llion Jones lawer baich. Ef hefyd, gyda Dr Fomin, a ymgymerodd â'r dasg lafurddwys o baratoi'r gyfrol bresennol ar gyfer ei chyhoeddi.

*Bangor*, *1 Medi 2017*

# FOREWORD

## *PEREDUR LYNCH*

In September 2014, in cooperation with the Centre for Advanced Welsh and Celtic Studies, the School of Welsh at Bangor University welcomed the 7th Societas Celto-Slavica Colloquium. This was Societas Celto-Slavica's first visit to Wales, and the Bangor colloquium will long be remembered by those present. The three days saw experienced scholars and graduate students deliver twenty-two academic papers, and we were privileged to hear keynote lectures by Professors John Koch, Angharad Price and Huw Pryce. In addition to the energy of the academic discussion, the visitors to Bangor were blessed with that occasional September sun we call 'ha bach Mihangel' – this glorious 'small summer' was at its best on the final Sunday of the conference, when we toured places of special historical and cultural resonance in Môn and Arfon.

In the morning, on the site of the medieval court of Rhosyr, the sun shone generously as we stood within the ruined walls of the hall and proclaimed awdlau not heard there since the Poets of the Princes themselves, seven hundred years earlier. Our tour led us ultimately to the top of Dinas Dinlle: the sea glistened below us, and Gwynedd basked in a magic straight out of the Mabinogi.

In organising the Colloquium in Bangor on behalf of the School of Welsh and the Centre for Advanced Studies I was readily supported by the Director of the Centre, Professor Dafydd Johnston. Two of Societas Celto-Slavica's permanent officers, Dr Maxim Fomin and Dr Elena Parina, were easily moved to assist, and here in Bangor, with his usual magnanimity, Dr Aled Llion Jones shouldered many responsibilities. He also, together with Dr Fomin, prepared this volume for publication.

*Bangor, 1 September 2017*